


Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2020-21



Tiwtor :

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 4
Dydd Iau 22^{ain} o Hydref 2020



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG



Nod y sesiwn heddiw:

- Adolygu Rhannau Ymadrodd.
- Dod yn ymwybodol o'r gwallau cyffredin sy'n codi wrth ddefnyddio'r rhagenwau.

◇ Adolygu Rhannau Ymadrodd

enw

ansoddair

goddrych

rhagenw

arddodiad

gwrthrych

cysylltair

y fannod

berfenw

adferf

berf



Ymarfer Rhannau Ymadrodd – Gwirio atebion

ENW eb / eg / egb / ell n.f / n.m / n.m.f / n.pl	ANSODDAIR a. a.	ADFERF adf. ad.	BERFENW be. v.
cymdeithas			
	cyflym		
			trefnu
cost			
		yn flasus	
			arbenigo
	effeithiol		
penderfyniad			
		yn weithgar	
			gwybod





Rhagenwau





Beth ydy rhagenw?



Gair yw rhagenw sy'n cael eu ddefnyddio yn lle enw.

e.e. Mae'r bachgen yn canu.



Mae e / ef yn canu.

Ydych chi'n gallu meddwl am
enghreifftiau o ragenwau?

Defnyddiwch y
'sgwrs' i rannu eich
syniadau?



Pam eu bod nhw'n
bwysig i ni?



Pam eu bod nhw'n bwysig i ni?

Cwricwlwm Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen
(Diwygiedig 2015)

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:
defnyddio cwestiynau amrywiol, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?', at ddibenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖	paratoi a gofyn cwestiynau amrywiol, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?', at ddibenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth ❖
defnyddio cyflythreniad ac odl ❖	defnyddio cyflythreniad ac odl mewn ystod o gyd-destunau ❖
defnyddio rhythm ac odl i greu llafarganeuon, odlau a cherddi syml ❖	defnyddio rhythm ac odl i greu llafarganeuon, odlau a cherddi mwy cymhleth ❖
dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>y ferch</i>	defnyddio ambell dreigladd y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. <i>y bêl, fy mag, i'r dref</i>
gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, e.e. <i>dilyn cyfarwyddiadau'n gywir</i>	gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen



Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: fersiwn Cwricwlwm Cymru 2008

Blwyddyn 4

I defnyddio'r treigladau
mwyaf cyffredin yn gywir,
e.e. fy nghalon

Blwyddyn 5

treiglo'n gywir yn arbennig
ar ôl y rhan fwyaf o'r
arddodiaid a'r rhagenwau,
e.e. am funud, dy fam

Blwyddyn 6

treiglo'n gywir ar ôl
arddodiaid a rhagenwau,
gan ddechrau dod yn
ymwybodol nad yw pob
llythyren yn dilyn y drefn
arferol, *e.e. y llinell*

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/>



Cymraeg Ail Iaith

Cyfnodau Allweddol 2-4


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cymraeg ail iaith
yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir
2. defnyddio a chysylltu amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a brawddegau yn gywir, gan gadarnhau'r gystrawen Gymraeg, a defnyddio paragraffau lle bo'n briodol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
5. meithrin cywirdeb trwy:
 - ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid
 - treiglo
 - defnyddio cenedl enwau
6. sillafu geiriau syml yn gywir a gwirio'u sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh



4. Rhagenw

Annibynnol

Maent yn gallu bodoli mewn brawddeg ar eu pennau eu hunain.

syml

fi	ni
ti	chi
ef hi	nhw

dwbl

myfi	nyni
tydi	chwychwi
efe/hyhi	hwythwy

Defnyddir y rhagenwau hyn er mwyn pwyslais, er enghraifft:
'Pwy biau hwn?' 'Myfi'

Rhagenw

Gair yn lle enw yw rhagenw.

cysylltiol

minnau	ninnau
tithau	chwithau
yntau/hithau	hwythau

Mae'n rhaid i'r rhagenwau hyn fod yn gysylltiedig â phersonau, neu enwau, neu ragenwau eraill:

Sian: Fe fum i yn y disgo.
Sion: A finnau

Dibynnol

Dyma'r rhagenwau sy'n dibynnu ar eiriau eraill yn y frawddeg.

blaen

fy	ein
dy	eich
ei	eu

ôl

i	ni
ti/di	chi
ef/hi	nhw/hwy

mewnol

i'm	i'n
i'th	i'ch
o'i/i'w	o'u/i'w

Ble mae'r rhagenw?

Gwelais i'r ferch yn y dre ddoe.

Mae John a finnau'n ffrindiau mawr.

Arno fe mae'r bai.

Rydw i ar fy mhen fy hunan.

Dyna eu hysgol ar y teledu.

Mae'r pennaeth yn dod i'th swyddfa.

Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.

Aethon ni i'r dre ac aeth hithau i'r cyfarfod.



Ble mae'r rhagenw?



Gwelais i'r ferch yn y dre ddoe.
Mae John a finnau'n ffrindiau mawr.
Arno fe mae'r bai.
Rydw i ar fy mhen fy hunan.
Dyna eu hysgol ar y teledu.
Mae'r pennaeth yn dod i'th swyddfa.
Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.
Aethon ni i'r dre ac aeth hithau i'r cyfarfod.

Gwelais **i**'r ferch yn y dre ddoe.
Mae John a **finnau**'n ffrindiau mawr.
Arno **fe** mae'r bai.
Rydw **i** ar **fy** mhen **fy hunan**.
Dyna **eu** hysgol ar y teledu.
Mae'r pennaeth yn dod i'**th** swyddfa.
Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.
Aethon **ni** i'r dre ac aeth **hithau** i'r cyfarfod.



Gwallau Cyffredin: Cywirwch y brawddegau canlynol.

1. Mae nhw'n codi'n gynnar.
2. Mae e'n braf iawn heddiw.
3. Ydy e'n naw o'r gloch?
4. Fi sy'n capten ar y tîm criced.
5. E yw'r gorau yn y dosbarth.



Ymarfer: Atebion



1. Maen nhw'n codi'n gynnar.
2. Mae hi'n braf iawn heddiw.
3. Ydy hi'n naw o'r gloch?
4. Fi ydy / yw capten ar y tîm criced eleni.
5. Fe yw'r gorau yn y dosbarth.

Beth allwch chi ddweud am...



ei (g)

ei (b)

eu

ein

eich

dy

fy



fy

Mae angen treiglo'n drwynol
ar ôl 'fy'



Ydych chi'n cofio pa lythrennau
sy'n treiglo'n drwynol?

Treigladrwynol	
p	mh
t	nh
c	ngh
b	m
d	n
g	ng





Ymarfer

cyfrifon

camera

desg

gwaith

gwyliau

calendr

cyfrifiadur

dyddiadur

car

bwrdd

teledu

taleb

pensil

cytundeb





dy

ei (g)



Mae angen treiglo'n feddal
ar ôl 'dy' ac 'ei (g)'

Treiglad Meddal

p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	/
ll	l
m	f
rh	r





Ei (b)

Mae angen treiglo'n laes
ar ôl 'ei (b)'

Treigladau Trwynol	
p	ph
t	th
c	ch



Ydych chi'n cofio pa lythrennau
sy'n treiglo'n laes?

Rydyn ni'n ychwanegu 'h' o flaen llafariaid
e.e ei hesgid hi





Does dim treigladd yn dilyn y rhagenwau hyn.

Rydyn ni'n ychwanegu 'h' o flaen llafariad
gydag **eu** ac **ein**





Unigol

fy

dy

ei (gwr.)

ei (ben.)

Treiglad

Trwynol

Meddal

Meddal

Llaes (**h** o flaen llafariad)

Lluosog

ein

eich

eu

Treiglad

h o flaen llafariad

h o flaen llafariad

e.e.

fy mhen

dy ben

ei ben

ei phen; ei hathro

ein hathro

eich athro

eu hathro



Ymarfer Sydyn

Gwella'r
Gair

Rhagenwau

1

Llusgwch y geiriau cywir i'r bylchau isod. Byddwch yn ofalus gyda'r treigladau.

brawd chwpan teulu chaeau deulu mrawd ceffylau cwpan gwpan theulu frawd cheffylau gaeau geffylau caeau

Bore da, blant.

Heddiw, mae tad Gwen, sef fy _____ wedi dod i'r ysgol i siarad â ni am ei _____ e. Mae ei _____ e'n ei helpu i ofalu am y ceffylau yn eu _____ nhw ar y fferm. Enillodd fy Gwen, fy nith i, ei _____ cyntaf am arddangos ceffylau yn y sioe eleni. Llongyfarchiadau iddi hi.



<https://gwellar-gair.peniarth.cymru/gweithgareddau/7>



ei neu eu

Gwall cyffredin iawn sy'n codi wrth ysgrifennu
yn y Gymraeg ydy pryd i ddefnyddio ei / eu

Mae **ei** yn sôn
am rywbeth sy'n
perthyn i **un**
person.



ei waith e

ei gwaith hi

Treiglad
Meddal

Treiglad Llaes
(h) o flaen
llafariaid

Mae **eu** yn sôn
am rywbeth sy'n
perthyn i **fwy**
nag un person.



eu gwaith nhw

Dim Treiglad
(h) o flaen
llafariaid






Ond: ei gilydd



...sy'n gywir bob amser, hyd yn oed os ydyn ni'n siarad am fwy nag un person.

e.e. *Darllenodd y staff adroddiadau ei gilydd.*
Edrychodd y cymeriadau ar ei gilydd yn syn.





Ymarfer: ei neu eu





Ymafer: ei / eu / i / u

Mae'r llyfr wedi cael ____ ddarllen.

Cafodd y staff ____ canmol am ____ gwaith caled.

Roedd y rheolwr wrth ____ fodd gyda ____ swydd newydd.

Gwnaeth Sara a Sam deithio gyda ____ gilydd i'r cyfarfod.

Mae'r nwyddau newydd wedi ____ prynu ar y we.

Roedden nhw wedi cwrdd â ____ gilydd yn y gynhadledd.

Rydw i'n adnabod ____ brawd a ____ chwaer hi.

Roedd llawer o raglenni newydd wedi cael ____ cynhyrchu yn ystod y tymor.





Ymafer: ei / eu / i / u - ATEBION

Mae'r llyfr wedi cael ei ddarllen.

Cafodd y staff eu canmol am eu gwaith caled.

Roedd y rheolwr wrth ei fodd gyda'i swydd newydd.

Gwnaeth Sara a Sam deithio gyda'i gilydd i'r cyfarfod.

Mae'r nwyddau newydd wedi eu prynu ar y we.

Roedden nhw wedi cwrdd â'i gilydd yn y gynhadledd.

Rydw i'n adnabod ei brawd a'i chwaer hi.

Roedd llawer o raglenni newydd wedi cael eu cynhyrchu yn ystod y tymor.





Ymarfer: Gywiro Gwallau

Beth sydd o'i le fan hyn?

Roedd e'n hoffi ei tiwtor

Roedd hi'n hoff iawn o'i cwrs

Maen nhw'n dueddol o anghofio am ei gwaith cwrs a'i gwaith cartref!

Maen nhw'n talu'n ddrud am eu thŷ

Gadawon nhw o'u wirfodd





Ymarfer: Atebion

Roedd e'n hoffi ei diwtor

Roedd hi'n hoff iawn o'i chwrs

Maen nhw'n dueddol o anghofio am eu gwaith cwrs a'u gwaith cartref!

Maen nhw'n talu'n ddrud am eu tŷ

Gadawon nhw o'u gwirfodd



Dyma enghreifftiau wrth ddefnyddio collnod:
(Gwylwch y treigladau)

i + ei	=	i'w	Aeth hi i'w thŷ. Aeth e i'w dŷ.
i + eu	=	i'w	Aeth y staff i'w swyddfeydd.
a + ei	=	a'i	Y bachgen a'i degan. Y ferch a'i thegan.
a + u	=	a'u	Y gweithwyr a'u ceir.
o + ei	=	o'i	Mae e'n gweithio o'i gartref. Mae hi'n gweithio o'i chartref.
o + eu	=	o'u	Mae'r staff yn gweithio o'u cartrefi.
i + ein	=	i'n	Dere i'n gweld ni
i + eich	=	i'ch	Ydych chi'n barod i'ch cyfweliad?
i + fy	=	i'm (*dim treigladau)	Dewch <u>i'm</u> gweld.

Ymarfer - erbyn y ddarlith nesaf 3.11.20



Rhagenwau

1. Mae'r ffeil yn gyflawn a'i drefn yn glir.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
2. Mae'r Llywodraeth yn amrywio ei pholisiau.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
3. Anghofiodd y merch ei cit pêl-droed.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
4. Gweithiodd Aled yn arbennig wrth baratoi ei gyflwyniad.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
5. Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'i marciau yn y prawf.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
6. Mae'r daig yn hollbwsig a'i phwrpas yn glir.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
7. Roedd yr adroddiad yn gynhwysfawr yn ei chyfannwydd.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
8. Penderfynodd yr athrawon beidio â gosod gwaith cartref i'w ddosbarth.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
9. Roedd y wers yn rhy arwynebol a'i chynnwys yn rhy syml.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
10. Mae'r gliniaduron yn y cwpwrdd a'u ceblau yn y boc.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
11. Rhedodd Sian yn gyflym rhag iddi gollu ei thrên i Gaerdydd.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
12. Roedd y gwasanaeth yn wych a'i chynnwys yn berthnasol.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
13. Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'u marciau yn y prawf.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir
14. Penderfynodd Helen brynu anrheg Nadolig i'w gefnder.
A ☐ Cywir B ☐ Anghywir



Wordwall

<https://wordwall.net/play/3372/369/258>



Cywir
neu
Anghywir



Ôl-gyfeirio

ee.

*Mae'r llythyr a gafodd ei lofnodi gan Brif
Weinidog Prydain, wedi cael ei roi i Lywydd
y Cyngor Ewropeaidd...*

Llythyr (eg)

Llythyr (eg)

Ymarfer: Cywirwch y Canlynol



1. Rhoddodd y ferch ei gas pensiliau yn ei fag.
2. Roedd y plant wrth ei bodd gyda rhaglen Cyw.
3. Gweithiodd Siôn yn galed ar eu gwaith cynllunio.
4. Roedd llyfrau'r disgyblion yn ei bagiau.
5. Torrodd y bachgen ei choes wrth ddisgyn oddi ar ei beic.
6. Edrychodd y ddau fachgen yn gas ar eu gilydd.
7. Bydd pawb yn cael ei gwobrau cyn diwedd yr wythnos.
8. Mae'r cyflwynwyr wrth ei fodd gyda'r stiwdio newydd.

Ymafer: Cywirwch y Canlynol ATEBION


1. Rhoddodd y ferch ei chas pensiliau yn ei fag.
2. Roedd y plant wrth eu bodd gyda rhaglen Cyw.
3. Gweithiodd Siôn yn galed ar ei waith cynllunio.
4. Roedd llyfrau'r disgyblion yn eu bagiau.
5. Torrodd y bachgen ei goes wrth ddisgyn oddi ar ei beic.
6. Edrychodd y ddau fachgen yn gas ar ei gilydd.
7. Bydd bawb yn cael eu gwobrau cyn diwedd yr wythnos.
8. Mae'r cyflwynwyr wrth eu bodd gyda'r stiwdio newydd.



Geirfa Addas

Gwrywaidd	Gair	Benywaidd
ei gynnydd	cynnydd	ei chynnydd
ei botensial	potensial	ei photensial
ei allu	gallu	ei gallu
ei gyrhaeddiad	cyrhaeddiad	ei chyrhaeddiad
ei ddatblygiad	datblygiad	ei datblygiad
ei ddarllen	darllen	ei darllen
ei ysgrifennu	ysgrifennu	ei hysgrifennu
ei sgiliau	sgiliau	ei sgiliau
ei lefelau	lefelau	ei lefelau
ei ymdrech	ymdrech	ei hymdrech
ei fod	bod	ei bod
ei waith	gwaith	ei gwaith
ei astudiaethau	astudiaethau	ei hastudiaethau
ei brofion	profion	ei phrofion
ei dargedau	targedau	ei thargedau
ei les	lles	ei lles
ei iechyd	iechyd	ei hiechyd





Pensil

Meddal

Dy Ei

Dy bensil
Ei bensil

Teulu

Dy deulu
Ei deulu

Cas pensil

Dy gas pensil
Ei gas pensil

Brechdan

Dy frechdan
Ei frechdan

Dillad

Dy ddillad
Ei ddillad

Gwisg ysgol

Dy wisg ysgol
Ei wisg ysgol

Llyfr

Dy lyfr
Ei lyfr

Meicroffôn

Dy feicroffôn
Ei feicroffôn

Rhwyd

Dy rwyd
Ei rwyd

Trwynol

Fy

Fy mhensil

Fy nheulu

Fy nghas pensil

Fy mrechdan

Fy nillad

Fy ngwisg ysgol

Llaes

Ei

Ei phensil

Ei theulu

Ei chas pensil

Dyma'r rhagenwau...

Fy

Dy

Ei

Ei

Ein

Eich

Eu



Cofiwch!

Rhaid defnyddio'r rhagenw'n gywir

✓ fy ffôn
✓ ei frawd
✓ fy chwaer

✗ ffôn fi
✗ brawd fe
✗ chwaer fi

Collais i *fy* ffôn.
Mae *ei* frawd e'n chwarae rygbi.
Doedd *fy* chwaer i ddim yn y parti.

Rhagenwau Rhagorol

Ein ac Eu – Does dim treigladd, ond rhaid ychwanegu 'h' o flaen llafariaid...

Ein teulu ni

Ein hysgol ni

Eu dillad nhw


Eu hesgidlau nhw

Eich – Does dim newid...

Eich bwyd chi

Eich anifail chi





Erbyn y ddarlith nesaf:
Meddyliwch am syniadau
posib sut i gyflwyno
rhagenwau yn y dosbarth.
Byddwch yn greadigol!



Darlith nesaf: Dydd Mawrth 3^{ydd} o Dachwedd 2020